| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 5 Medi 2024 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant / Thomas Hiles, Swyddog Arweiniol - Coed a Choetir |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Emlyn Jones; Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **Awdur yr adroddiad** | Thomas Hiles |
| **Teitl** | Cynnal a Chadw a Rheoli Coed |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn sôn am waith Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) i gynnal a chadw a rheoli Coed, gan gyfeirio at flaenoriaethau presennol, polisïau perthnasol a dyrannu adnoddau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Helpu'r Aelodau i ddeall sut y mae coed CSDd yn cael eu rheoli ar hyn o bryd ar draws yr awdurdod, o fewn cyd-destun pob maes gwasanaeth.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cynnig sylwadau ac awgrymiadau i'r swyddogion eu hystyried.

# 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Fel perchennog tir, mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, bod yr holl goed ar ei dir yn cael eu cadw mewn cyflwr derbyniol ac nad ydynt yn achosi perygl afresymol i bobl nac eiddo.

4.2. Mae canllawiau cyhoeddus ar sut y mae'r awdurdod yn rheoli ei goed i'w gweld ar wefan y Cyngor, gan gynnwys gwybodaeth am yr amgylchiadau sy'n golygu bod angen cymryd camau adferol. (Atodiad A)

4.3. Caiff ceisiadau gan y cyhoedd neu aelodau lleol i asesu neu gynnal a chadw coed eu codi fel arfer drwy'r system C360, a'u neilltuo i'r swyddogion perthnasol. Atgyfeirir ceisiadau o'r fath yn aml at y Tîm Coed, sy'n archwilio'r coed ac yn cynnig cyngor yn unol â'u canfyddiadau. Gallai ceisiadau eraill ddod yn uniongyrchol i'r tîm, yn aml drwy coed@sirddinbych.gov.uk

**4.4 Clefyd Coed Ynn**

Tîm Coed CSDd sy'n arwain ymateb y Cyngor i Glefyd Coed Ynn, a nodwyd yn risg gorfforaethol yn 2020. Mae Clefyd Coed Ynn yn glefyd ffyngaidd a ledaenir gan sborau a gludir yn yr aer ac sy'n achosi i goed Ynn ddirywio'n raddol a marw. Cafodd ei gofnodi gyntaf yn y DU yn 2012 ac mae wedi bod ar led yn Sir Ddinbych ers o leiaf 2016. Nid oes unrhyw driniaeth na dull o'i atal rhag lledaenu. Mae yna oblygiadau amgylcheddol ac iechyd a diogelwch sylweddol i hyn o ystyried mai'r Onnen yw'r drydedd goeden fwyaf cyffredin yn y DU.

Mae'r tîm yn cynnal arolygon blynyddol o goed Ynn, ar dir y Cyngor ac ar hyd y rhwydwaith priffyrdd. Bydd coed Ynn ar dir CSDd yn cael eu cadw pan fo hynny'n bosib, ond os yw'r perygl iddyn nhw fethu yn 'Annerbyniol' (gan ddefnyddio methodoleg yr Asesiad Risg Coed Meintioledig), bydd y Tîm Coed yn comisiynu ac yn rheoli'r gwaith cwympo angenrheidiol. Bydd perchenogion coed preifat ar hyd y rhwydwaith priffyrdd yn cael gwybod am unrhyw gamau y mae angen eu cymryd fel rhan o ddyletswyddau CSDd fel Awdurdod Priffyrdd, dan Ddeddf Priffyrdd 1980. Oherwydd natur raddol y clefyd a'r nifer fawr o goed Ynn yn Sir Ddinbych, bydd hon yn rhaglen waith barhaus hyd y gellir rhagweld. I gael rhagor o wybodaeth am ymateb CSDd i Glefyd Coed Ynn, trowch at Atodiad B.

**4.5 Rheoli coed yn ôl adran**

Mae gan amrywiol wasanaethau ran i'w chwarae yn y gwaith o gynnal a chadw a rheoli asedau coed CSDd, gyda'r tîm coed yn eu cefnogi drwy gynnig cyngor ac arweiniad arbenigol. Ar draws y gwasanaethau hyn, costiodd y gwaith o reoli coed (heb gynnwys plannu coed) tua £130,000 i CSDd ym mlwyddyn ariannol 2023/24.

Y Gwasanaeth Cefn Gwlad sy'n rheoli coetir a safleoedd gyda choed unigol. Mae rhai o'r safleoedd hyn yn boblogaidd iawn, fel Parc Gwledig Loggerheads sy'n cael dros 200,000 o ymwelwyr bob blwyddyn. Mae Clefyd Coed Ynn wedi effeithio'n arbennig ar y parc hwn, gyda nifer o goed wedi gorfod cael eu cwympo. Gall timau'r Ceidwaid wneud rhywfaint o waith coed eu hunain, gan fod ganddyn nhw'r hyfforddiant a'r cyfarpar angenrheidiol. Caiff unrhyw waith mwy arbenigol ei roi allan ar gontract a'i gyllido naill ai drwy gyllidebau safle neu gyllidebau prosiect. Mae'r Tîm Newid Hinsawdd wedi darparu cyllid i gefnogi gwaith cynnal a chadw coed a blannwyd fel rhan o'u rhaglen nhw, drwy ddarparu mwy o swyddi Ceidwaid a chyfarpar.

Addysg: Yr Ysgol a'r Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am reoli coed ar safleoedd ysgolion. Rhaid i ysgolion archwilio coed ar eu safleoedd yn rheolaidd a gweithredu ar ganfyddiadau'r archwiliadau hynny. Pan fydd pryderon yn cael eu codi am effaith coed sydd ar safleoedd ysgolion ar gymdogion cyfagos, cynghorir yr ysgolion am bolisi Sir Ddinbych ar reoli coed. Er mwyn helpu Penaethiaid a Rheolwyr Busnes Ysgolion i reoli coed ar safleoedd eu hysgolion, mae swyddogion o'r timau gwasanaeth perthnasol wedi nodi'r angen i ddarparu canllawiau penodol i ysgolion.

Mae'r adran Priffyrdd yn ymgorffori cost unrhyw waith cynnal a chadw coed angenrheidiol o fewn cyllidebau prosiectau eraill, fel y rhaglen Gwaith Cyfalaf. Fel rhan o'u dyletswyddau dan Ddeddf Priffyrdd 1980, rhaid iddyn nhw sicrhau bod y Priffyrdd yn ddiogel ac nad oes unrhyw beth yn eu rhwystro. Mae hyn yn cynnwys trefnu i glirio coed a brigau sydd wedi cwympo ar y briffordd. Os bydd storm ddifrifol, fel Storm Arwen yn 2021, bydd Llywodraeth Cymru weithiau'n darparu cyllid ychwanegol i hwyluso'r gwaith clirio. Nhw sydd hefyd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r arwynebau palmant o amgylch coed ar strydoedd. Bydd eu swyddogion yn asesu cyflwr cyffredinol y troedffyrdd ac yn comisiynu gwaith ail-wynebu yn ôl yr angen.

Tai Mae Tai Cymunedol CSDd yn cydnabod y buddion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y mae coed a gwrychoedd yn eu cynnig, ac yn ymdrechu i'w cynnal a'u cadw mewn modd cynaliadwy. Caiff gwaith ei wneud yng ngerddi eiddo gwag i'w gwneud yn ddiogel ar gyfer y tenantiaid newydd ac i roi lle iddyn nhw y gallan nhw ei reoli'n a'i gynnal a'i gadw fel y nodir yn y Cytundeb Tenantiaeth. Dim ond pan fydd popeth arall wedi methu y bydd gwrychoedd a choed yn cael eu torri i lawr. Bydd ceisiadau coed sy'n dod o dan yr Adran Eithriadau Coed yn cael eu harchwilio, ond byddwn yn arfer ein doethineb o ran y gwaith a wneir. Os yw preswylwyr dan anfantais neu'n ddiamddiffyn, bydd pob achos yn cael ei asesu ar sail unigol gan ddefnyddio'r system goleuadau traffig.

Cynllunio Bydd pob rhan o'r Tîm Cynllunio (Gorfodi, Rheoli Datblygiad, Cynllunio Strategol a Thai) yn ymgynghori â'r Tîm Coed ar amrywiaeth o faterion. Mae'r rhain yn cynnwys ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau, gwaith ar goed mewn Ardaloedd Cadwraeth, ceisiadau am ganiatâd i wneud gwaith ar goed a ddiogelir gan Orchmynion Diogelu Coed a dyrannu safleoedd i'w datblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Bydd y Tîm Cynllunio a'r Tîm Coed hefyd yn cydweithio i ymchwilio i achosion posib o dorri deddfwriaeth mewn perthynas â choed a ddiogelir, ac i greu Gorchmynion Diogelu Coed newydd.

Y Gwasanaethau Stryd sy'n rheoli coed ar strydoedd ac ym mharciau a mynwentydd Sir Ddinbych. Mae ganddyn nhw gyllidebau cyfyngedig i gynnal a chadw coed fesul Grŵp Ardal Aelodau ac ar gyfer mynwentydd. Caiff y rhain eu dyrannu ar gyfer gwaith y mae angen ei wneud pan fydd coed yn achosi perygl i Iechyd a Diogelwch y cyhoedd ac/neu yn gwneud difrod i eiddo. Mae unrhyw waith cynnal a chadw ychwanegol y bydd angen ei wneud ar goed yn arwain at bwysau ar gyllideb gyfyngedig y Gwasanaethau Stryd yn y maes hwn.

### 4.6 Datblygu Strategaeth Coed a Choetir

Un o gamau gweithredu'r Strategaeth Hinsawdd a Natur (2021/22 i 2029/30), i gynyddu amsugniad carbon y Cyngor ar gyfer Blynyddoedd 4 i 6 (2024/5 i 2026/7), yw cynhyrchu Strategaeth Coed a Choetir a'r rhoi ar waith. Bydd hyn yn helpu sicrhau cydlyniad da a safoni gofal coed ar draws holl Wasanaethau CSDd, o fewn y gwahanol gyd-destunau a phwysau cysylltiedig sy'n berthnasol i bob adran.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Mae coed yn elfen allweddol yn y gwaith o gyflawni Sir Ddinbych sy'n Fwy Gwyrdd a Chyngor Di-garbon Net ac Ecolegol gadarnhaol erbyn 2030. Dylid rheoli a datblygu'r asedau coed presennol yn briodol i'n helpu i gyflawni'r nodau hyn.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Gall cost datblygu Strategaeth Goed ddod o fewn y cyllidebau presennol.

6.2. Byddwn yn ymgynghori â'r gwasanaethau a'r swyddogion perthnasol wrth ddatblygu'r strategaeth.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio penderfyniad, felly ni chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Les.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Gwahoddwyd swyddogion o'r adrannau y soniwyd amdanyn nhw i wneud sylwadau, ac fe drafodwyd rheoli coed mewn amrywiol gyfarfodydd yn y cyfnod yn arwain at gyflwyno'r adroddiad hwn.

8.2. Ymgynghorwyd â'r Aelod Arweiniol ar gynnwys yr adroddiad hwn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'r costau a'r ystyriaethau ariannol presennol wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn.

9.2 Bydd yn bwysig ystyried costau a chyllid ar gyfer camau gweithredu a glustnodir wrth ddatblygu'r Strategaeth Coed a Choetir.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Gall coed fod yn risg i iechyd a diogelwch neu i eiddo. Bydd datblygu'r Strategaeth Coed a Choetir a'i rhoi ar waith yn helpu rheoli'r risg hon drwy wella cydlyniad ar draws y gwasanaethau a chysondeb yn y gofal am goed.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio unrhyw benderfyniad.